CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD BLYNYDDOL GOHIRIEDIG Y CYNGOR
A GYNHALIWYD AR 22 MAI 2024

Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Heledd ap Gwynfor, fu'n cadeirio Cyfarfod Blynyddol Gohiriedig Cyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor, Neuadd Ddinesig San Pedr, nos Fercher yr 22ain o Fai 2024 am 7:30yh.

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Heledd ap Gwynfor, Dai Evans (fideo), Peter Hughes Griffiths, Gareth John (fideo), Andy King (fideo), Arwel Lloyd, Ioan Matthews, Miriam Moules (fideo), Russell Sparks (fideo), Wyn Thomas, Aled Williams, Barry Williams a Luned Voyle.

10. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Emlyn Schiavone ac Angharad Jones Leefe.

11. DATGAN BUDDIANNAU

Dim

12. STRWYTHUR PWYLLGORAU

Fe'i gynigiwyd gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Ioan Matthews, a **PHENDERFYNWYD** sefydlu tri Phwyllgor Sefydlog ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2024/25: Pwyllgor Dibenion Cyffredinol, Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Rheoli, gyda pharhad un is-bwyllgor – Siân Johnston a Masnach Deg.

13. PENODI PWYLLGORAU

PWYLLGORAU SEFYDLOG

Fe'i gynigiwyd gan y Cyng. Wyn Thomas, eiliwyd gan y Cyng. Andy King, a **PHENDERFYNWYD** y bydd y tri Phwyllgor Sefydlog ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2024/25 yn cynnwys yr Aelodau canlynol (yn amodol ar fod y Maer a'r Dirprwy Faer yn aelodau ex-officio o bob pwyllgor, yn unol â Rheol Sefydlog 41):

Pwyllgor Dibenion Cyffredinol

- Cyng Heledd ap Gwynfor – Ward y Gogledd (ex-officio)
- Cyng Dai Evans – Ward y Gorllewin
- Cyng. Peter Hughes Griffiths – Ward y Gogledd
- Cyng. Angharad Jones Leefe – Ward y Gogledd
- Cyng. Alun Lenny – Ward y De
- Cyng. Arwel Lloyd – Ward y Gorllewin

Draft

- Cyng Ioan Matthews -Ward y Gorllewin
- Cyng. Miriam Moules – Ward y Gogledd
- Cyng. Emlyn Schiavone – Ward y Gorllewin (ex-officio)
- Cyng. Russell Sparks – Ward y Gorllewin
- Cyng. Barry Williams – Ward y De

Pwyllgor Cyllid

- Cyng. Heledd ap Gwynfor – Ward y Gogledd
- Cyng. Tom Defis – Ward y Gorllewin
- Cyng. Gareth John – Ward y De
- Cyng. Andy King – Ward y Gorllewin
- Cyng. Jeffrey Thomas – Ward y Gogledd
- Cyng. Emlyn Schiavone – Ward y Gorllewin
- Cyng. Wyn Thomas - Ward y De
- Cyng. Aled Williams – Ward y Gorllewin
- Cyng Luned Voyle – Ward y Gogledd

Pwyllgor Rheoli

- Cyng Heledd ap Gwynfor – Ward y Gogledd
- Cyng Emlyn Schiavone – Ward y Gorllewin
- Cyng Russell Sparks – Ward y Gorllewin
- Cyng Wyn Thomas – Ward y De
- Cadeirydd y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol
- Is-gadeirydd y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol
- Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
- Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Siân Johnston Pwyllgor Amgylcheddol a Masnach Deg

- Cyng Tom Defis – Ward y Gorllewin
- Cyng Andy King – Ward y Gorllewin
- Cyng Miriam Moules – Ward y Gogledd

14. GWEITHDREFN PWERAU BRYS

Ar y 29ain o Fai 2002 cytunodd y Cyngor ar Weithdrefn Pwerau Brys ar sail sefydlu Pwyllgor Pwerau Brys.

Cynigiwyd gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths eiliwyd gan y Cyng. Ioan Matthews, a **PHENDERFYNWYD** am y Flwyddyn 2024/25 bod y Maer, y Dirprwy Faer, a Chadeirydd naill ai'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol neu'r Pwyllgor Cyllid, yn ôl ewyllys Clerc y Dref neu Ddirprwy Glerc y Dref, o ystyried y mater dan sylw, yn cael eu hawdurdodi i weithredu ar y cyd i benderfynu ar unrhyw fater brys y cyfeirir atynt gan Glerc y Dref neu Ddirprwy Glerc y Dref. Os na fydd y Maer, y Dirprwy Faer na Chadeirydd naill ai'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol neu'r Pwyllgor Cyllid ar gael, bod Siryf y Dref a/neu Gadeirydd y Pwyllgor arall y cyfeirir ato uchod yn cael eu hawdurdodi i weithredu yn y cyfryw achos.

Draft

15. GWEITHDREFN APELIADAU

Mae angen i apeliadau ynglŷn â materion disgyblu gael eu hystyried gan yr Aelodau hynny nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor Rheoli, gan fod y pŵer gan y Pwyllgor Apeliadau i wrando ar apeliadau yn erbyn camau disgyblu a gymerwyd gan y Pwyllgor Rheoli.

PHENDERFYNWYD am y Flwyddyn 2024/25 bod y Pwyllgor Apeliadau yn cynnwys pob Aelod nad ydynt yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Rheoli, a bod gan y Pwyllgor Apeliadau y pŵer i wrando ar apeliadau yn erbyn camau disgyblu a gymerwyd gan y Pwyllgor Rheoli.

16. PWYLLGORAU A GRWPIAU ERAILL Y CYNGOR

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau fod cais wedi dod i law oddi wrth Bwyllgor Mordwyo Bar Caerfyrddin i ddiddymu gan y cytunwyd bod yr atebolrwydd, costau yswiriant, offer, deunyddiau, hyfforddiant a risgiau diogelwch i gyd yn afresymol i grŵp bach o wirfoddolwyr.

PENDERFYNWYD yr Aelodau i cytuno'r cais.

PENDERFYNWYD bod pwyllgorau a grwpiau ansefydlog y Cyngor am y Flwyddyn 2024/25 yn cynnwys yr aelodau isod:

	Grŵp	**Aelod(au)**
(1)	Gŵyl yr Afon, Caerfyrddin	Cyng. Dai Evans
(2)	Cymdeithas Glan yr Afon, Caerfyrddin	Cyng, Dai Evans
(3)	Panel Beirniadu Gwobrau Chwareon Tref Caerfyrddin	Y Maer, Dirprwy Faer a Siryf
(4)	Cadeirydd Grwp Llywio Ras Hwyl y Maer	Y Maer, Dirprwy Faer
(5)	Cystadleuaeth Safle Gorau (Pride of Place)	Y Maer a Dirprwy Faer & Siryf

17. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y CYNGOR A PHWYLLGORAU

PENDERFYNWYD cadarnhau'r dyddiadau canlynol yn unol â'r Rheolau Sefydlog ar gyfer 2024/2025:

- Cynnal cyfarfodydd misol y **Cyngor** ar y nos Fercher olaf o bob mis, ac eithrio mis Awst. Ym mis Rhagfyr bydd y Cyngor yn cyfarfod ar 11 Rhagfyr.
- Bydd y **Pwyllgor Dibenion Cyffredinol** yn cyfarfod ar yr ail ddydd Mercher o bob mis ac eithrio Mai, Awst a Rhagfyr.
- Bydd y **Pwyllgor Cyllid** yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol bob mis.
- Bydd y Pwyllgor Rheoli yn cyfarfod yn ôl yr angen, ond o leiaf bob chwarter.

Draft

- Bod Clerc y Dref neu Glerc Gweithredol y Dref yn penderfynu ar ddyddiadau cyfarfodydd y **pwyllgorau a'r grwpiau eraill**, drwy ymgynghori â'r Cadeirydd perthnasol, oni bai bod cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwnnw, neu'r Cyngor wedi penderfynu ar ddyddiad.

18. CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL

CYTUNWYD y dylid penodi Cyng. Dai Evans i Siambr Fasnach Caerfyrddin.
PENDERFYNWYD bod y gynrychiolaeth ar weddill pwyllgorau a grwpiau'r cyngor yn aros heb ei newid neu fel y'i diwygiwyd uchod ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2024/25, fel a ganlyn:

Grwpiau a Chymdeithasau

	Grŵp	**Aelod (au)**
(1)	Siambr Fasnach Caerfyrddin	Cyng, Dai Evans a staff y Cyngor lle bo'n briodol
(2)	Cymdeithas Ddinesig Caerfyrddin	Cyng Peter Hughes Griffiths
(3)	Tywyswyr Tref Caerfyrddin – yn cynorthwyo'r Ganolfan Croeso sydd bellach yn rhedeg y cynllun	Cyng Dai Evans ac Alun Lenny
(4)	Fforwm Adfywio Tref Caerfyrddin	Cyng Jeff Thomas
(5)	Cymdeithas Gefeillio Tref Caerfyrddin	Cyng Peter Hughes Griffiths
(6)	Llais (Cyngor Iechyd Cymuned Sir Gaerfyrddin yn flaenorol)	Cyng Barry Williams
(7)	Prosiect Ieuenctid Dr Mz	Y Maer, Cyng, Emlyn Schiavone a Jeff Thomas
(8)	Masnach Deg - Cyfarfodydd Sirol	Cyng Parch Tom Defis a Miriam Moules
(9)	Masnach Deg - Cyfarfodydd Cyhoeddus y Dref	Cyng Parch Tom Defis a Miriam Moules
(10)	Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned Mwyaf De Cymru	Y Maer a'r Clerc
(11)	Menter Gorllewin Sir Gâr	Cyng Arwel Lloyd
(12)	Shop Mobility	Cyng Miriam Moules
(13)	Pwyllgor Rheoli Prosiect Teulu Tŷ Ni a Tŷ Hapus	Cyng Emlyn Schiavone a Jeff Thomas
(14)	Un Llais Cymru (gan gynnwys mynychu cyfarfodydd cangen y sir a chynhadledd/ cyfarfod blynyddol)	Cyng Tom Defis, Peter Hughes Griffiths a Jeff Thomas
(15)	Grŵp Cynghorau Lleol Mwyaf Un Llais Cymru	Cyng Tom Defis, Peter Hughes Griffiths a Jeff Thomas
(16)	Ymddiriedolaeth Oriel Myrddin	Cyng Angharad Jones-Leefe

Draft

Cyrff Llywodraethol Ysgolion

Ysgol	Cynrychiolydd Cymunedol	Tymor yn dod i ben:
Ysgol Tre Ioan	Dr Baba Gana	03.09.25
Ysgol Model	Cyng.Russell Sparks	30.06.27
Ysgol Myrddin	Cyng. Miriam Moules	01.10.25
Ysgol Parc Waun Deq	Cyng.Barry Williams	05.12.26
Ysgol Gatholig y Santes Fair	Cyng.Emlyn Schiavone	06.03.27
Ysgol y Dderwen	Cyng.Dr Ioan Matthews	11.03.28

19. HYFORDDIANT AELODAU

PENDERFYNWYD bod Siryf y Dref, y Cyng. Russell Sparks yn cael ei benodi'n bencampwr hyfforddi ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2024/25.

20. COD YMDDYGIAD

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r dogfen digyfnewid.

21. DIWYGIADAU I'R RHEOLIADAU ARIANNOL ENGRHEIFFTIOL.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol gyda diwygiadau ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2024/25, sef caniatau carden credyd costau gyda therfyn o £500 yn lle cerdyn debyd wedi talu o flaen llaw. Bydd rheoliadau newydd yn cael eu cyhoeddi gan Un Llais Cymru cyn hir a bydd y cyngor yn cael cyfle l'w hystyried unwaith maen nhw'n dod i law.

22. CYMERADWYO A MABWYSIADU'R RHEOLAU SEFYDLOG.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog.

23. POLISÏAU ERAILL Y CYNGOR.

PENDERFYNWYD nodi'r polisïau a symud ymlaen ag unrhyw ddiwygiadau drwy'r Pwyllgor Dibenion cyffredinol i'w drafod ymhellach.

24. PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL.

Cytunodd aelodau bod y cyngor yn cwrdd â'r meini prawf i fod yn gymwys i ddefnyddio'r pŵer**. CYNIGIWYD** gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths ac eiliwyd gan y Cyng. Ioan Matthews i barhau i arfer y pŵer ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2024/2025.

Daeth y cyfarfod i ben am 7:56 y.h

Draft